***An experience of one of our multi-lingual Playwork learners Derya, who overcame barriers to achieve her Playwork qualification and went on to take over a Playwork setting. Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs' Training Officer Jacqui discusses their collaborative and adaptive approach to working through the qualification.***

Derya enrolled on a Level 3 Diploma in Playwork with Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs in March 2023, after Derya and other Childminders in her professional support group decided to further their professional development.

Derya and I met and we discussed the apprenticeship and the essential skills that form part of the qualification. Derya explained how she was multi-lingual with English as a second language and felt a bit apprehensive. We put a plan in place to test methods to gain the evidence needed for the qualifications. Derya attended sessions to further her knowledge and understanding of the theory behind Playwork. If needed, Derya would also do her own research and then ask questions or discuss the theory and how she had seen this in her practice.

> ***"Your flexible approach during the training sessions made a significant difference in my confidence. You were always quick to respond to my questions and provided the help I needed to understand the content and how to meet the assessment criteria. Although I had the knowledge and experience, this was my first time working at level 3 in English." Derya***

I supported Derya with voice recordings which she found to be a good way to express what she wanted to say. We also had discussions enabling her to give examples of what she would do in certain situations or what the children had played with. Alongside these methods, Derya completed written work from her research or the training sessions she attended.

During the course, I supported Derya to understand the meanings of words and how they link to other practice. Derya often shared how her own culture would do things in a different way.

> ***"When I started the course, I was worried about my English skills, as it is my second language. I was unsure if my language level was good enough to complete the programme. However, my experience turned out to be very different from what I had feared, largely because of the support provided by Jacqui. " Derya***

On my initial observation at the setting, I could see that Derya was outside with the children a lot and had developed a large outdoor space. Derya had always understood the importance of children having different experiences and took the children to different places.

Over the months, I could see how Derya had adapted her approach from getting involved in the children's play to waiting for invites to play and standing back and observing their play.

Derya also gave the children opportunities for risk and to risk assess for themselves through their play. Further into the course Derya developed her loose parts resources and consulted with the children on a regular basis to find out their play needs and preferences.

For the Application of Number and Communication Essential Skills qualifications, support was given with practice papers, different materials to build on the use of the English language, grammar and different ways of writing descriptive information.

Derya worked hard to achieve her Level 3 in Playwork and overcome different obstacles along the way. This was a very proud moment for Derya and I felt privileged to be part of her journey.

Derya later got in touch to say she was taking over the local After School Childcare Club and would be registering the club with Care Inspectorate Wales (CIW). I spoke with Derya to discuss the process and provided her with information. I put her in touch with our local Development Officer who is supporting her with the process and with obtaining grants through our CYMell project.

> ***"As the course went on, your guidance helped me gain confidence, and I began to feel more sure of myself. Now, I am excited to pursue further courses and aim to work above level 3 in the future. Your support has been vital in my journey, and I am very grateful for the positive impact it has had on my career. Thank you again for your continued support throughout this qualification." Derya***

**Jacqui John, Training Officer, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**

**Derya Warrington, Club Leader, Hendy After School Club.**

***Dyma brofiad un o'n dysgwyr Gwaith Chwarae, Derya, dysgwr amlieithog a oresgynnodd rwystrau i gwblhau ei chymhwyster Gwaith Chwarae, ac sydd wedi mynd ymlaen i arwain lleoliad Gwaith Chwarae ei hun. Mae Jacqui, Swyddog Hyfforddi Clybiau Plant Cymru, yn rhannu eu dull cydweithredol ac addasol i weithio drwy'r cymhwyster.***

Cofrestrodd Derya ar Ddiploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae gyda Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs ym mis Mawrth 2023, ar ôl i Derya a Gwarchodwyr-Plant eraill yn ei grŵp cefnogaeth broffesiynol benderfynu hybu eu datblygiad proffesiynol.

Cyfarfu Derya a minnau a buom yn trafod y brentisiaeth a'r sgiliau hanfodol sy'n rhan o'r cymhwyster. Esboniodd Derya ei bod yn amlieithog gyda Saesneg fel ail iaith, a'i bod yn teimlo braidd yn bryderus. Rhoesom gynllun ar waith i brofi dulliau i gael y dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer y cymwysterau. Mynychodd Derya sesiynau i ehangu ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o'r ddamcaniaeth sy'n gefndir i Waith Chwarae. Pe bai angen, byddai Derya hefyd yn gwneud ei hymchwil ei hun ac yna'n gofyn cwestiynau neu'n trafod y ddamcaniaeth a sut roedd hi wedi gweld hyn yn ei harferion.

> ***"Gwnaeth eich agwedd hyblyg yn ystod y sesiynau hyfforddi wahaniaeth sylweddol yn fy hyder. Roeddech bob amser yn ymateb yn gyflym i'm cwestiynau ac yn rhoi'r cymorth yr oedd ei angen arnaf i ddeall y cynnwys a sut i fodloni'r meini prawf asesu. Er bod gen i'r wybodaeth a'r profiad, dyma oedd fy nhro cyntaf yn gweithio ar lefel 3 mewn Saesneg." Derya***

Cefnogais Derya gyda recordiadau llais a oedd, yn ei barn hi, yn ffordd dda o fynegi'r hyn yr oedd am ei ddweud. Cawsom drafodaethau hefyd a oedd yn ei galluogi i roi enghreifftiau o'r hyn y byddai'n ei wneud mewn rhai sefyllfaoedd neu'r hyn yr oedd y plant wedi chwarae ag ef. Ochr yn ochr â'r dulliau hyn, cwblhaodd Derya waith ysgrifenedig o'i hymchwil neu'r sesiynau hyfforddi yr oedd yn eu mynychu.

Yn ystod y cwrs, cefnogais Derya i ddeall ystyron geiriau a sut maent yn cysylltu ag arferion eraill. Roedd Derya yn aml yn rhannu sut y byddai ei diwylliant ei hun yn gwneud pethau mewn ffordd wahanol.

> ***"Pan ddechreuais ar y cwrs, roeddwn yn poeni am fy sgiliau Saesneg, gan mai dyma fy ail iaith. Roeddwn i'n ansicr a oedd fy lefel iaith yn ddigon da i gwblhau'r rhaglen. Fodd bynnag, trodd fy mhrofiad yn wahanol iawn i'r hyn yr oeddwn wedi'i ofni, yn bennaf oherwydd y gefnogaeth a roddwyd gan Jacqui." Derya***

Ar fy arsylwi cychwynnol yn y lleoliad, roeddwn i'n gallu gweld bod Derya yn yr awyr agored gyda'r plant yn aml ac wedi datblygu man awyr-agored mawr. Roedd Derya bob amser wedi deall pwysigrwydd cael profiadau gwahanol i blant ac yn mynd â'r plant i wahanol leoedd.

Dros y misoedd, roeddwn i'n gallu gweld sut roedd Derya wedi addasu ei hagwedd i symud o gymryd rhan yn chwarae'r plant i aros am wahoddiadau i chwarae, gan sefyll yn ôl ac arsylwi eu chwarae.

Roedd Derya hefyd yn rhoi cyfleoedd i'r plant wneud risg ac asesu risg drostynt eu hunain trwy eu chwarae. Ymhellach i mewn i'r cwrs datblygodd Derya ei hadnoddau rhannau rhydd, ac roedd yn ymgynghori â'r plant yn rheolaidd i ganfod eu hanghenion chwarae a'u hoffterau chwarae.

Ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu, rhoddwyd cymorth gyda phapurau ymarfer, deunyddiau gwahanol i adeiladu ar y defnydd o'r iaith Saesneg, gramadeg a gwahanol ffyrdd o ysgrifennu gwybodaeth ddisgrifiadol.

Gweithiodd Derya yn galed i ennill ei Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae a goresgyn gwahanol rwystrau ar hyd y ffordd. Roedd hon yn foment falch iawn i Derya a theimlais yn freintiedig i fod yn rhan o'i thaith.

Cysylltodd Derya yn ddiweddarach i ddweud ei bod yn cymryd drosodd y Clwb Gofal Plant Ôl-Ysgol lleol ac y bydd yn cofrestru'r clwb gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Siaradais â Derya i drafod y broses a rhoi gwybodaeth iddi. Rhoddais hi mewn cysylltiad â'n Swyddog Datblygu lleol sy'n ei chefnogi gyda'r broses ac i gael grantiau drwy ein prosiect CYMell.

> ***"Wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen, fe wnaeth eich arweiniad fy helpu i ennill hyder, a dechreuais deimlo'n fwy sicr o mi fy hun. Yn awr, rwy'n llawn cyffro i ddilyn cyrsiau pellach, ac yn bwriadu gweithio ar lefel uwch na lefel 3 yn y dyfodol. Mae eich cymorth wedi bod yn hollbwysig yn ystod fy nhaith, ac rwy'n ddiolchgar iawn am yr effaith gadarnhaol y mae wedi ei gael ar fy ngyrfa. Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus drwy gydol y cymhwyster yma." Derya***

**Jacqui John, Swyddog Hyfforddiant, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**

**Derya Warrington, Arweinydd Clwb, Clwb Ôl-Ysgol yr Hendy.**

Date April 2025

Contact Us *to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.*

www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
029 2074 1000
Facebook
Twitter
Instagram